# EVANS, THOMAS (1844 - 1922), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Thomas Evans
**Dyddiad geni:** 1844
**Dyddiad marw:** 1922
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 1 Tachwedd 1844 yn y Ffatri, Penybontfawr, Sir Drefaldwyn. Bu'n gweithio fel ffatrïwr am gyfnod. Taniwyd ei ysbryd yn niwygiad crefyddol 1859 i ddechrau pregethu. Bu'n fyfyriwr yn athrofa'r Bala, 1865-8, a bu'n gweinidogaethu yn Betws-y-coed a Salem (Capel Garmon), 1868-74, ac yn Amlwch, 1874-1922. Yr oedd yn fugail gofalus o'i braidd, yn bregethwr gwresog a chartrefol ei arddull, a dug fawr sêl dros y genhadaeth. Bu farw 7 Rhagfyr 1922.

Yr oedd David Evans (1842 - 1914) ac Owen Evans (1829 - 1920) yn frodyr iddo.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Y Tri Hyn sef y Parchedigion Owen Evans, D.D., Llundain, David Evans, Caerfyrddin, Thomas Evans, Amlwch* (1931)

*Y Dysgedydd*, Mawrth 1923


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734448


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu